

**CYNGOR BRO MORGANNWG**  
**GORCHYMYN (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A**  
**LLWYTHO A PHARCIO)**  
**(GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 12) 2020**

1. Ar 8 Rhagfyr 2020 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, greu Gorchymyn i osod y Cyfyngiadau Parcio a nodir yn yr atodlen isod.
2. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 14 Rhagfyr 2020 neu ar y dyddiadau y gosodir yr arwyddion a'r marciau ffordd yn eu lle, p'un bynnag sydd hwyrac ac fe'i gelwir - "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 12) 2020"
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a chynlluniau yn dangos yr ardal yr effeithir arni ar wefan y Cyngor yn [www.bromorgannwg.gov.uk](http://www.bromorgannwg.gov.uk)
4. Os dymunwch gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos wedi 14 Rhagfyr 2020 wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Caiff y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol ei ddiwygio fel a ganlyn:

**Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil) 2013**

**ATODLEN**

**(Ychwanegu at atodlenni map AU58).**

**Cynnig Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho o ddydd Llun i ddydd Gwener o 8am tan 9am ac o 3pm tan 4.30pm.**

**Caerau Lane, Gwenfô**

Ar ochr orllewinol y gyffordd â'r mynediad i dŷ'r ysgol, tua'r gogledd am bellter o 34.5 metr.

Ar ochr orllewinol y gyffordd â'r mynediad i dŷ'r ysgol, tua'r de am bellter o 19 metr.

Ar ochr y gorllewin o'r gyffordd â phrif fynediad yr ysgol am 23 metr tua'r de.

Ar ochr y dwyrain o bwynt 20 metr tua'r de o'r mynediad i dŷ'r ysgol, am 64.5 metr tua'r gogledd.

Ar ochr y dwyrain, o'r gyffordd ag ochr ddeheuol y cylch troi am 92 metr tua'r de.

Dyddiad: 10 Rhagfyr 2020.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg,

Depo'r Alpau, Gwenfô, CF5 6AA